CCSDL1

Gwerthuso a chyfathrebu eich sgiliau wrth arwain dawns

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso a chyfathrebu eich sgiliau wrth arwain dawns ac unrhyw brofiadau ategol a all fod yn fanteisiol ar gyfer gweithio gyda phobl benodol neu mewn mannau penodol.

Mae angen cymorth ar gyflogwyr a chyfranogwyr i ddeall yr hyn y gallwch ei gynnig iddynt h.y. yr hyn rydych chi eich hun yn ei gynnig o ran dawns. Mae hunanymwybyddiaeth ac arfarniad gonest o'ch sgiliau fel arweinydd dawns yn hanfodol er mwyn sicrhau eich bod yn marchnata eich hun yn fanwl-gywir.

Yn achos arweinwyr dawns mewn ysgol breifat gallai rhieni fod ymhlith y bobl y dylech chi allu cyfathrebu â nhw. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i artistiaid dawns sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain mewn nifer o leoliadau gyfathrebu ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau gan gynnwys asiantaeth ddawns, awdurdod lleol neu gyllidwr arall, cyfranogwr, rhiant, gweithiwr addysg neu iechyd.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cyfleu i eraill eich sgiliau a'ch profiad o arwain gweithgareddau dawns
2. nodi eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun
3. disgrifio sut a pham rydych chi eisiau arwain dawns gyda grwpiau penodol o bobl a/neu mewn mannau penodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pwysigrwydd gwerthuso eich sgiliau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, meini prawf a chyfeiriadau
2. y gwahaniaeth rhwng "arwain" dawns a "hyfforddi" dawns
3. sut mae adnabod nodweddion ymarfer effeithiol wrth arwain dawns
4. dulliau o nodi lefel eich sgiliau o ran nodweddion cydnabyddedig ymarfer diogel ac effeithiol wrth arwain dawns
5. pwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a all eich paratoi i arwain dawns gyda grwpiau penodol o bobl a/neu mewn mannau penodol

Geirfa

Arwain Dawns - defnyddir y term hwn i wahaniaethu rhwng arwain a hyfforddi a dysgu. Er bod hyfforddi a dysgu'n rhan bwysig o'r gwaith hwn nid ydynt yn disgrifio'r holl gymwyseddau sy'n ofynnol er mwyn arwain dawns. Yn ogystal â dilyn maes llafur, traddodiad neu gwricwlwm wedi'i saernïo o amgylch addysg neu arddull ddawns, neu weithiau yn hytrach na gwneud hynny, bydd yr arweinydd dawns yn creu cyfleoedd i gyfranogwyr gyfrannu'n greadigol i lunio'u dawns neu eu rhaglen ddawns. Mae 'arwain' dawns yn gofyn bod ymarferwr yn gallu ymchwilio, cynllunio, sefydlu, marchnata, dysgu/hwyluso/gwneud a gwerthuso dawns gyda grwpiau a/neu unigolion penodedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Sgiliau trosglwyddadwy – y sgiliau sydd gennych sy'n berthnasol i'r bobl rydych am weithio gyda nhw neu'r mannau lle rydych am weithio, ac sy'n ychwanegol at eich sgiliau arwain dawns, y byddwch wedi'u datblygu o bosibl drwy brofiadau bywyd neu fathau eraill o hyfforddiant ffurfiol, er enghraifft, yn y sectorau gofal, iechyd neu addysg.

Mae **grwpiau penodol o bobl a/neu fannau penodol** yn cyfeirio at ystod o grwpiau a allai gymryd rhan mewn dawns, er enghraifft, plant a phobl ifanc, pobl hŷn neu bobl anabl; gallai mannau penodol gyfeirio at ystod o fannau lle gellid cynnal dawns, gan gynnwys mannau penodol, er enghraifft, ysbytai, canolfannau ieuenctid, cartrefi preswyl, neu leoliadau cyfiawnder troseddol.

Cynnig o ran dawns - mae'r term "cynnig" yn un a ddefnyddir yn gyffredin ym myd busnes i olygu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth rydych chi'n ei gynnig a dylech gyfleu'r cynnig yn glir fel bod eich cwsmeriaid yn ei ddeall. Fe'i defnyddir yn yr un modd yma; bydd gwerthuso eich sgiliau a'u mynegi fel "cynnig" yn fodd i chi a phobl eraill bennu eu gwerth. Bydd hyn yn eich galluogi i farchnata eich gwasanaeth yn hyderus.

Gwerthuso a chyfathrebu eich sgiliau wrth arwain dawns

Datblygwyd gan	Creative &Cultural Skills
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Indicative Review Date	Ionawr 2018
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
RCU gwreiddiol	CCSDL1
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol;
Cyfres/Set	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau Allweddol	arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, gwerthuso, hunan-werthuso